Disgrifiad Swydd

Teitl Swydd: Rheolwr Datblygu Busnes

Gradd: ADC Gradd 6

Oriau: 22.5 awr yr wythnos

Cyfrifoldeb: Yn atebol i'r Prif Swyddog Gweithredol

Diben: Arwain ar ymchwilio, datblygu, dylanwadu a sicrhau cyllid newydd i helpu i gynnal y sefydliad a'i brosiectau i gyflawni ein nod o wneud Cymru'r lle gorau i fyw, caru, gweithio a dysgu ynddo os oes gennych anabledd dysgu.

Cyfrifoldebau

1 Rheolaeth

1.1 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd Rheolwyr rheolaidd sy'n adrodd ar eich meysydd gwaith a chyfrannu at ein cynllun strategol.

1.2 Arwain neu gymryd rhan mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol sy'n berthnasol i'n cyllid a'n cynaliadwyedd.

1.3 Mewn cydweithrediad â Phrif Swyddog Gweithredol a Rheolwyr, arwain ar ddatblygu cyllid a chynaliadwyedd prosiectau newydd.

1.4 Cefnogi Rheolwyr wrth baratoi gofynion perthnasol ar gyfer monitro prosiectau ac adrodd ar gynnydd a osodir gan y cyllidwyr prosiect hynny.

2. Datblygu Busnes

2.1 Gweithio gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a'r rheolwyr eraill i gefnogi datblygiad y corff yn y dyfodol i gyflawni targedau cynhyrchu incwm blynyddol

2.2 Gweithio'n agos gyda rheolwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'u hanghenion cyllido tymor byr, canolig a thymor hir.

2.3 Chwarae rôl allweddol wrth gefnogi'r prosiect Ffrindiau Gigiau drwy ei drawsnewidiad i elusen drwy baratoi ceisiadau am gyllid a chwilio am ffynonellau incwm amgen.

2.4 Datblygu a chynnal cydberthnasau cydweithredol cadarnhaol gyda chyllidwyr, rhoddwyr, partneriaid a rhanddeiliaid allweddol i godi ymwybyddiaeth o'r problemau y mae pobl ag anabledd dysgu yn eu hwynebu i helpu i sicrhau cefnogaeth ariannol.

2.5 Datblygu a chyflwyno cyflwyniadau o ansawdd uchel i amrywiaeth o gynulleidfaoedd i gynnig am gyllid.

3. Cynhyrchu Incwm

3.1 Arwain ar nodi a chynghori ar gyllid newydd a chyfleoedd partneriaeth ar gyfer Anabledd Dysgu Cymru a'i brosiectau.

3.2 Arwain ar ddatblygu cynigion/ceisiadau ariannu o ansawdd uchel.

4. Arall

4.1 Ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau o fewn cwmpas eich rôl i sicrhau bod ein cynllun strategol yn cael ei gyflawni.

Gweithredol o	15 Mai 2024
Cymeradwywyd gan	Zoe Richards, PSG
Derbyniwyd gan	